

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian Gorffennaf 2015

Ffordd Tafarngrisiau: Bydd cwmni Hogans yn ail-wynebu'r ffordd ar ran Cyngor Gwynedd am gyfnod o hyd at bythefnos o Gorffennaf 27 ymlaen. Gwybodaeth bellach gan Barry Naylor Williams ar 01286 679760.

Ffordd Osgoi Caernarfon/Bontnewydd : mae gwelliannau wedi eu cyflwyno ger Crug sy'n golygu y bydd mynediad lleol ar gael. Mae'r map diweddaraf ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned yn Felin Sgwrsio.

Ffynnon Fair: Mae Alun Ffred Jones, AC wedi cysylltu â chwmni Jones-Bros, y cwmni sy'n gweithredu ar gynllun y ffordd osgoi, yn nodi pryder ynglŷn â'r ffynnon a'r posibilrwydd iddi gael ei chladdu. Yn dilyn ymweliad safle, deallir fod pob ymdrech i'w wneud i ddiogelu'r ffynnon.

Map Llwybrau Y Felinheli : noson lawnsio yn y Neuadd Goffa am 7, Gorffennaf 22.

Caban Felin: Diwrnod agored yng ngweithdy Glyn Lancaster Jones yn Dinas ar Gorffennaf 14 fel rhan o fudiad Mens Sheds Cymru.

Gwyl y Felin: diolch yn fawr i bawb am un o'r wythnosau mwyaf llwyddiannus eto.

Ysgol Y Felinheli: pob lwc i Non Huws sy'n ymddeol fel pennaeth. Mae ei chyfraniad tuag at addysg ein plant a bywyd ein cymuned wedi bod yn aruthrol.

Cais Cynllunio Rowen : mae disgwyl i gais ar gyfer 14 o dai gael ei drafod yn y Pwyllgor Cynllunio ar Gorffennaf 27.

Cais Cynllunio Cae Fodol : cafodd y cais ei wrthod gan y Pwyllgor Cynllunio ym Mehefin.

Fflatiau Golygfa Menai : mae rhain yn cael eu marchnata i bobl leol yn gyntaf drwy gwmni Beresford Adams. Mae help ar gael i brynwyr newydd drwy'r Cynllun 'Help i Brynu'

Neuadd yr Eglwys : mae'r Eglwys wedi cychwyn y broses o benodi pensaer i ddod a chynlluniau ymlaen i wella'r neuadd a chreu maes parcio cymunedol.

Stepiau Cei: rwyf yn parhau i geisio cael ffordd ymlaen fel bod modd ail-agor y llwybr cyhoeddus. Mae pryder am ddiogelwch y cyhoedd yn parhau.

Cylch Meithrin Y Felinheli: llongyfarchiadau i'r Cylch ar gyrraedd ei nod o godi £10,000. Diolch i Central Garage am eu rhodd o £870. Mae 'Norman Y Corach' yn parhau i godi arian i'r Cylch!